Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Syniadau Mawr Cymru
# Her Dechrau Rhywbeth Da
# Telerau ac Amodau

## 1. Cyflwyniad:

1.1 Trefnir yr her hon gan Prospects (Shaw Trust Ltd) ar ran Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru, Simply Do & UnLtd. Mae 'Ni' yn cyfeirio at Prospects (Shaw Trust Ltd). Mae 'Chi' yn cyfeirio at unrhyw gystadleuydd yr her (gan gynnwys oedolyn - rhiant / gwarcheidwad / athro / athrawes sy'n cyflwyno cais ar ran person(au) ifanc os yw/ydynt yn 11-16 oed.)

1.2 Drwy gystadlu yn yr her, rydych yn cytuno â holl delerau ac amodau'r her ac yn derbyn bod penderfyniadau Prospects (Shaw Trust Ltd) ac unrhyw feirniaid a benodir gan Prospects (Shaw Trust Ltd) yn derfynol a gorfodol ymhob ffordd.

1.3 Ynghyd â'n partneriaid, mae Prospects (Shaw Trust Ltd) wedi creu Her Menter Dechrau Rhywbeth Da ar gyfer pobl ifanc 11-18 mlwydd oed ledled Cymru a gallwch weithio arni'n annibynnol neu mewn grwpiau. Bydd yr her hon yn darparu cyfleoedd i chi arddangos eich talent entrepreneuraidd yn ogystal â dangos eich dealltwriaeth o effaith menter gymdeithasol. Ein nod, trwy'r gweithgaredd hwn yw eich cynorthwyo i fod yn ddinasyddion mentrus, creadigol, moesegol a gwybodus.

## 2. Cymhwysedd

2.1 Mae'r her ar agor i bobl ifanc 11-18 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru. Gall pobl ifanc ymgeisio fel unigolion neu fel rhan o grŵp (uchafswm 6 aelod), ar yr amod eich bod yn rhan o 1 ymgais yn unig.

2.2 Mae dau gategori oedran::

- Categori 1: 11-16 (rhaid ei gyflwyno gan oedolyn – rhiant/gwarcheidwad/athro/athrawes)
- Categori 2: ôl-16 (16-18)

## 3. Yr Her – yr hyn sydd angen i'r bobl ifanc ei wneud:

3.1 Meddyliwch am ATEB i rywbeth fyddai'n cael effaith GADARNHAOL ar y bobl o'ch cwmpas/yn eich cymuned.

3.2 Ar gyfer yr HER bydd angen i chi:

- Ddweud wrthym am yr effaith gadarnhaol (effaith)
- Ddweud wrthym sut y byddwch yn gwneud arian (elw)
- Ddweud wrthym sut yr ydych wedi meddwl am y 3P (pobl, planed, proffid)

3.3 Mae angen i chi greu naill ai Fideo (uchafswm o 3 munud) oddeutu 10GB neu Power-point (dim mwy nag 8 sleid) oddeutu 30 MB i roi bywyd i'ch syniad (yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog).

3.4 Uwch lwythwch eich fideo neu'ch powerpoint drwy ffurflen gais ar-lein Simply Do– gweler **Sut i Ymgeisio** isod.

## 4. Sut i gymryd rhan yn yr her

4.1 Dylid cyflwyno pob ymgais trwy ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ar blatfform Simply Do.

4.2 Nodir dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch ymgais yn adran 'Sut i Ymgeisio' ar dudalen we'r Her**.**

4.3 Ni dderbynnir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.

4.4 Drwy gystadlu, rydych yn cytuno na fyddwch yn:

- Cyflwyno deunydd sy'n amhriodol, anweddus, atgas, arteithiol, difenwol, athrodus neu enllibus
- Cyflwyno deunydd sy'n hyrwyddo rhagfarn, hiliaeth, casineb neu niwed yn erbyn unrhyw grŵp neu unigolyn neu'n hyrwyddo gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd, cenedligrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran; a
- Cyflwyno deunydd sy'n anghyfreithlon, yn groes neu i'r gwrthwyneb i'r deddfau neu'r rheoliadau mewn unrhyw awdurdodaeth lle mae'r cyflwyniad yn cael ei greu.

4.5 Mae Prospects (Shaw Trust Ltd) yn cadw’r hawl i ddiarddel unrhyw gystadleuydd sy’n methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau’r her yn ôl ei ddisgresiwn ei hun yn unig.

4.6 Ni ellir derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ymgais sydd yn mynd ar goll neu ei gamosod ac ni ellir dychwelyd unrhyw ymgais, felly cadwch gopi os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio templed Her Dechrau Rhywbeth Da a ddarperir, yn cynnwys eich fideo neu power-point.

4.7 Rhaid i oedolyn (rhiant / gwarcheidwad / athro/athrawes) gyflwyno cais ar gyfer yr holl bobl ifanc 11-16 oed sy'n cymryd rhan yn yr her. Yn ogystal, rhaid i athro/athrawes gadarnhau caniatâd blaenorol gan rieni / gwarcheidwaid ar gyfer unrhyw bobl ifanc sy'n ymwneud â'r gweithgaredd menter hwn.

## 5. Eiddo deallusol

5.1 Trwy gyflwyno cais i'r her, rydych yn cadarnhau bod y deunyddiau her yn eiddo gyfan gwbl i chi eich hun/ grŵp yng nghategori Ôl-16 neu yn greadigaeth eu hunain yng nghyswllt unigolyn/ grŵp yng nghategori 11-16 (wedi’i gyflwyno gan oedolyn – rhiant/gwarcheidwad/athro/athrawes) ac nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn tarfu ar hawliau eiddo deallusol (gan gynnwys, heb gyfyngiadau patentau, hawlfreintiau, deunyddiau gweledol ar ba bynnag ffurf, recordiadau sain, unrhyw waith y gellir ei amddiffyn gan hawlfraint, dyluniadau, nodau masnach neu wasanaethau, hawliau cronfa ddata, hawliau mewn gwybodaeth, hawliau sy'n amddiffyn ewyllys da ac enw da, hawliau moesol neu hawliau tebyg eraill mewn unrhyw wlad, ym mhob achos p'un a ydynt wedi'u cofrestru ai peidio, ac unrhyw geisiadau i gofrestru unrhyw un o'r blaenorol, a phob hawl i wneud cais i gofrestru unrhyw un o'r blaenorol) unrhyw berson arall.

5.2 Os darganfyddir nad yw eich cais yn greadigaeth wreiddiol eich hunan ac/neu'n torri hawliau eiddo deallusol rhywun arall, yna bydd gan Prospects (Shaw Trust Ltd) hawl i ddiarddel y cais hwnnw o'r her.

5.3 Mae gennym yr hawl hefyd i ddatgelu pwy ydych chi wrth unrhyw drydydd parti sy'n honni bod unrhyw ddeunydd a gyflwynwyd gennych chi ac sy'n ymddangos ar ein gwefan yn torri eu hawliau eiddo deallusol, neu eu hawl i breifatrwydd.

5.4 Ni fyddwn yn gyfrifol, nac yn atebol i unrhyw drydydd parti, am gynnwys na chywirdeb unrhyw ddeunydd a gyflwynir gennych ac sy'n ymddangos ar ein gwefan.

## 6. Data Personol

6.1 Ymdrinnir â'r holl ddata personol a gesglir mewn perthynas â'r Her yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol.

6.2 Llywodraeth Cymru fydd y Rheolwr Data ar gyfer y data personol a roddwch ac fe brosesir y data yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

6.3 Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd eich data personol yn cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw. Cymerwch eiliad i ymgyfarwyddo â'n harferion preifatrwydd os gwelwch yn dda.

6.4 Byddwn angen prosesu'r mathau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch ar gyfer yr her yma:

- Bydd angen enw a chyfeiriad e-bost yr arweinydd Ôl 16 a'r oedolyn sy'n cyflwyno cais 11-16 mlwydd oed yn ogystal â rôl yr oedolyn (athro / rhiant / gwarcheidwad). Mae'r wybodaeth yma yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a chymorth i chi wrth i chi gystadlu. Mae hyn yn cynnwys anfon e-byst atoch, dolenni i adnoddau ar-lein a phost uniongyrchol yn ymwneud â'r her.

- Enw cyntaf ac oedran pawb sy'n cymryd rhan yn yr her, enw'r ysgol / coleg / grŵp cymunedol ac Awdurdod Lleol.

6.5 Dim ond gyda'r partneriaid sy'n cyd weithio ar raglen Syniadau Mawr Cymru yn unig y rhennir y data sef; darparwyr gwasanaeth Cazbah a Prospects, sy'n cyflwyno cefnogaeth Syniadau Mawr Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, a thîm gweinyddu Simply Do, gan y bydd cofnodion her yn cael eu cwblhau trwy'r platfform Simply Do ar-lein. Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth lle mae gennym sail gyfreithiol fel y dangosir uchod, neu pan fydd yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

6.6 Cyhoeddir enw busnes yr unigolion / timau buddugol yn y rowndiau rhanbarthol a'r enillydd / enillwyr 16-18 cyffredinol ochr yn ochr ag enw eu hysgol, coleg neu grŵp cymunedol ar wefan Syniadau Mawr Cymru / llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar wefannau / llwyfannau cyfryngau cymdeithasol partneriaid yr her. Byddwn yn ceisio caniatâd pellach gennych cyn y cyhoeddir enwau enillwyr ac ar ben hynny os oes angen ffotograffau, ffilmio neu recordiadau cysylltiedig â gwobrau neu gyflwyniad y gwobrau.

6.7 Cedwir eich gwybodaeth bersonol a gyflwynwyd fel rhan o'r her am 6 mis ar ôl y dyddiad y daw'r digwyddiad i ben ac yna fe gaiff ei ddileu oddi ar yr holl systemau.

## 7. Enillwyr:

7.1 Bydd pob cais yn cael ei feirniadu yn ôl y meini prawf canlynol a dyfernir pwyntiau i bob adran.

Rhan 1: Eglurwch sut y byddai eich syniad yn cael effaith gadarnhaol ar eich cymuned leol.

Rhan 2: Eglurwch sut y byddai eich syniad yn gwneud arian

Rhan 3: Dangoswch sut yr ydych wedi ystyried Pobl, Planed a Phroffid (Llinell Waelod Driphlyg)

Rhan 4: Arddull gyffredinol ac ansawdd cyflwyniad yr ymgais

7.2 Y grwpiau/ unigolion sy'n sgorio'r uchaf yn y meini prawf a ddewisir yn Enillwyr Rhanbarthol.

7.3 Fe fydd un enillydd 11-16 ac un enillydd Ôl-16 (yn cynnwys grwpiau neu gyfranogwyr unigol) o bob un o'r tri rhanbarth Syniadau Mawr Cymru a nodir isod:

- Gogledd
- Y Canolbarth a Gorllewin
- De Ddwyrain.

7.4 Dewisir un enillydd Ôl-16 cyffredinol – grŵp neu unigolyn o blith yr holl geisiadau

7.5 Bydd y Panel Beirniadu yn gyfrifol am gefnogi dewis yr enillwyr; bydd y panel yn cynnwys cyfuniad o entrepreneuriaid cymdeithasol a phartneriaid. Bydd eu penderfyniad yn derfynol.

7.6 Bydd adborth ar gael ar gais.

## 8. **Y Gwobrau**

8.1 Dyfarnir y gwobrau canlynol (gyda'i gilydd y "Gwobrau"):

- Y wobr ar gyfer pob Enillydd Rhanbarthol fydd: £ 100 ar gyfer y Grŵp Buddugol Rhanbarthol neu Unigolyn i'w roddi i fenter gymdeithasol leol* neu elusen gofrestredig o'u dewis;
- Gwobrau unigol i bob aelod o'r grŵp buddugol/unigolyn (hwdi Syniadau Mawr Cymru).
- Y wobr am un syniad buddugol (yn y categori oedran Ôl 16: 16-18) ar gyfer grŵp neu unigolyn yw hyd at £ 200, yn ogystal â chefnogaeth mentora i'w cynorthwyo i ddatblygu eu syniad busnes.

8.2 *Yr hyn a olygwn gan Fenter Gymdeithasol yw:

"Mae menter gymdeithasol yn fusnes sydd ag **amcanion cymdeithasol yn bennaf** y mae **ei gwargedion yn cael eu hail-fuddsoddi yn bennaf yn y busnes neu yn y gymuned**, yn hytrach na chael eu gyrru gan yr angen i sicrhau'r elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr a pherchnogion." (Trawsnewid Cymru Trwy Fenter Gymdeithasol, Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu, 2020)

8.3 Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i newid manylion y gwobrau ar unrhyw adeg.

8.4 Cyhoeddir y ceisiadau buddugol (dyddiad wedi'i nodi o dan 'Enillwyr a Gwobrau') ar y wefan hon ac fe hysbysir yr oedolyn perthnasol (categori 11-16) ac arweinydd yr ymgais Ôl-16 trwy ebost, gan ddefnyddio'r manylion a roddir ar Ffurflen Gais Simply Do.

8.5 Bydd pob ymgeisydd yn derbyn tystysgrif ddigidol yn nodi eu bod wedi cymryd rhan yn yr her.

## **9.Gwybodaeth Gyffredinol**

9.1 Rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio telerau ac amodau'r her hon ar unrhyw adeg. Os gwnawn hynny, byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau i'r telerau ac amodau her ac/neu delerau ac amodau her benodol ar y dudalen hon.

9.2 Dylid anfon unrhyw ymholiad i ymholiadau@syniadaumawrcymru.com

ac ymholiadau technegol mewn perthynas ag uwch lwytho fideo/power-point i Simply Do at: support@simplydo.co.uk